AMSER CANU

Bore da, Bore da
(Prynhawn da)
Sut wyt ti? Sut wyt ti?
Da iawn diolch,
Da iawn diolch,
Bore da, Bore da

Mr hapus ydw i, ydw i , ha ha ha
Mr hapus ydw i, ydw i, ha ha ha
Mr hapus ydw i, Mr hapus ydw i,
Mr hapus ydw i, ydw i, ha ha ha

Mr trist ydw i, ydw i, bw-hw...
Mr tawel ydw i, ydw i, sh-sh...
Mr swnllyd ydw i, ydw i, hwre...!

Clap, Clap, un dau tri
Clap, Clap, un dau tri
Clap, Clap, un dau tri
Troi a throi ein dwylo.

Tap, Tap...
Nod, Nod...
Cwtsh, Cwtsh...
Sws, Sws...
Stamp, Stamp...

Un a dau a thri
banana,
Pedwar a phump a
chwe banana,
Saith ac wyth a naw
banana,
Deg banana melyn

Un bys, dau bys, tri bys yn
dawnsio,
Pedwar bys, pump bys,
chwe bys yn dawnsio,
Saith bys, wyth bys, naw
bys yn dawnsio,
Deg bys yn dawnsio'n llon.
La la, la la....
Deg bys yn dawnsio'n llon.

Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed,
Coesau, Traed.
Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed,
Coesau, Traed.
Llygaid, Clustiau, Trwyn a Cheg.
Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed
Coesau, Traed.


Un llaw i fyny, un llaw i lawr,
Dwy law i fyny a dwy law i lawr.
Un fraich i fyny, un fraich i lawr,
Dwy fraich i fyny a dwy fraich i lawr.
Un troed i fyny, un troed i lawr,
Dwy droed i fyny a dwy droed i lawr.

Adeiladu tŷ bach, un, dau, tri,
To ar ei ben a dyna ni.
Sbiwch mewn trwy'r ffenest, beth
welwn ni?
Llygoden fach yn cysgu, yn y tŷ,
Llygoden fach yn deffro, i fwrdd a hi.

Coch a Melyn a Phinc a Glas,
Porffor ac Oren a Gwyrdd.
Dyma liwiau'r enfys, lliwiau'r enfys,
lliwiau'r enfys hardd.

menter iaith
Castell-nedd Port Talbot

Lan a lawr, lan a lawr, lan a lawr a lan a lawr,
Lan a lawr, lan a lawr, lan a lawr a lan a lawr.
Nôl a 'mlaen...
Rownd a rownd...



Mae'r olwynion ar y bws yn mynd rownd a rownd, rownd a rownd, rownd a rownd,
Mae'r olwynion ar y bws yn mynd rownd a rownd trwy y dydd.

Mae'r weipers ar y bws yn mynd swish swish swish...

Mae'r corn ar y bws yn mynd beep beep beep...

Mae'r plant ar y bws yn mynd lan a lawr...

Tri physgodyn yn y môr, tri physgodyn yn y môr. Tri physgodyn yn y môr yn nofio nofio nofio.
Marc y siarc yn bwyta un, Marc y siarc yn bwyta un, Marc y siarc yn bwyta un, dau sydd ar ôl.
Dau bysgodyn yn y môr...
Un pysgodyn yn y môr...

Pum crocodeil yn nofio yn yr afon, Pum crocodeil yn nofio yn yr afon, Nofiodd un o dan y dŵr, dim ond pedwar sydd ar ôl.
Pedwar / tri / dau / un...

Gee ceffyl bach yn cario ni'n dau,
Dros y mynydd i hela cnau,
Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic,
Cwympo ni'n dau,
wel dyna chi dric.

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Esgid newydd ar bob troed,
Dau gi bach yn dŵad adre,
Wedi colli un o'u sgidie,
Dau gi bach.

Mi welais Jac y do, yn eistedd ar ben to,
Het wen ar ei ben a dwy goes bren yn canu ho ho ho.
Yn canu ho ho ho, yn canu ho ho ho,
Het wen ar ei ben a dwy goes bren yn canu ho ho ho.

Mynd ar y ceffyl clipidi-clop,
Mynd ar y ceffyl trot trot trot,
Lan i'r mynydd a lawr i'r cwm,
Draw dros y dolydd bwm bwm bwm.
Gyrru a gyrru, gyrru a gyrru, gyrru a gyrru fel y gwynt, hei!

Troi ein dwylo, troi ein dwylo, troi a throi a throi fel hyn.
Curo'n dwylo, curo'n dwylo, clap a chlap a chlap fel hyn.
Chwifio'n dwylo, chwifio'n dwylo, chwifio a chwifio a chwifio fel hyn.

Heno, heno, hen blant bach,
Heno, heno, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach.

Gwely Gwely, hen blant bach...

Cysgu, cysgu, hen blant bach...

Hwyl fawr ffrindiau, Hwyl fawr ffrindiau, Hwyl fawr ffrindiau,
Mae'n amser dweud hwyl fawr.

menter iaith
Castell-nedd Port Talbot